# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 4 Ebrill 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Cynyddu Pwerau ac Adnoddau Uned Bolisi'r Cynulliad

**C7 Jonathan Morgan:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i gynyddu pwerau ac adnoddau Uned Bolisi'r Cynulliad fel cam tuag at wella'r modd y datblygir polisi? (OAQ4500)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae rôl staff a'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn faterion i'r Ysgrifennydd Parhaol ac fe'u cedwir dan sylw yng ngoleuni anghenion y Cynulliad. Ni ddirprwyir pwerau Cynulliad penodol i aelodau'r uned, sydd â'r rôl yn bennaf o hwyluso datblygu polisi.

### Symud Gwasanaeth Didoli Post Gogledd Cymru

**C8 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ystyried datblygu polisi i annog symud gwasanaeth didoli post gogledd Cymru, sydd ar hyn o bryd wedi'i leoli yng Nghaer, i ogledd Cymru? (OAQ4514)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr Adran Masnach a Diwydiant sydd yn gyfrifol am bolisi ar Swyddfa'r Post ac mae penderfyniadau ar faterion gweithredol o'r fath i'w gwneud gan y Post Brenhinol. Bwriad y Post Brenhinol yw canoli'r gwaith prosesu a gyflawnir ar hyn o bryd yn y pedair swyddfa ddidoli yng ngogledd Cymru yn y ganolfan prosesu post yng Nghaer. Mae'r Post Brenhinol wedi rhoi sicrwydd i'r Adran Masnach a Diwydiant na fydd hyn ond yn digwydd pan fo'n sicr na pheryglir ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid yng ngogledd Cymru.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Sicrhau Amrywiaeth yn y Penodiadau Cyhoeddus)

**C9 Richard Edwards:** Pa gynnydd y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud wrth sicrhau amrywiaeth yn y penodiadau cyhoeddus i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ4493)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Delir tua 31 y cant o swyddi cyhoeddus gan fenywod ac 1 y cant gan bobl o darddiad lleiafrifoedd ethnig.

Gwnaethpwyd 11 o benodiadau ers trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad. O blith y rhain, yr oedd chwech yn ddynion a phump yn fenywod. Mae nifer sylweddol o benodiadau i fod i'w gwneud a gobeithiaf y bydd hyn yn caniatáu inni wneud cynnydd pellach wrth wella amrywiaeth y rhai a benodir yn ôl eu teilyngdod i swyddi cyhoeddus.

Trafodwyd pwnc penodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru gan y Cabinet ar 13 Mawrth. Penderfynodd y Cabinet y dylid gofyn i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal edrych ar fater penodiadau cyhoeddus ac, yn arbennig, ar y modd y gellir annog mwy o bobl i ymgeisio am swyddi er mwyn sicrhau amrywiaeth ehangach mewn penodiadau.

### Effaith Toriadau yn Ffatri Longbridge

**C10 Helen Mary Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch hynt tasglu Llywodraeth y DU a sefydlwyd i ddelio ag effaith y toriadau arfaethedig yn ffatri Longbridge? (OAQ4501)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos â'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch gwaith y tasglu. Cyfarfu'r tasglu am y tro cyntaf ddydd Sadwrn 18 Mawrth, a chytunodd ar ddull gweithredu cynlluniedig. Fel cam cyntaf, dynododd 98 o gyflenwyr haen gyntaf i Rover/BMW, y mae 12 ohonynt yng Nghymru, a bydd yn trafod effaith bosibl colli gwaith Rover ar eu busnesau gyda hwy.

Mae hwn yn sector pwysig ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru. Mae tua 27,000 o bobl yn gysylltiedig â chynhyrchu cerbydau modur yng Nghymru. Mae'n bwysig cydnabod bod y diwydiant yn newid ac y caiff hyn effeithiau helaeth. Mae Fforwm Modurol Cymru yn sefydlu tasglu ac arno gynrychiolaeth o'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru. Un o'r tasgau pwysicaf y mae'r fforwm wedi ymrwymo iddi yw cynnal adolygiad strategol, tymor hir o'r diwydiant. Bydd gweledigaeth o'r dyfodol a arweinir gan y diwydiant yn gymorth i bob un ohonom ganolbwyntio ein hymdrechion yn effeithiol.

## Polisi'r Cynulliad (Datblygu Gwedd Ewropeaidd)

**C11 Jocelyn Davies:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu datblygu gwedd Ewropeaidd ar bob agwedd ar bolisi'r Cynulliad? (OAQ4510)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn Nhachwedd 1999 gofynnodd y Prif Ysgrifennydd bryd hynny i'r holl Ysgrifenyddion Cynulliad gomisiynu cyfres o adolygiadau polisi i asesu'r modd y mae polisïau'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar feysydd polisi oddi mewn i'w cylch gwaith. Mae pedwar o'r pum adolygiad bellach wedi eu cwblhau, a bydd cyfle gan y Pwyllgorau Pwnc i ystyried pob un ohonynt dros yr wythnosau nesaf hyn. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd wedi comisiynu adroddiad pellach ar hyn, a drafodir yn ei gyfarfod nesaf.

## Amcan 2 ac Amcan 3

**C12 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gyda'r Canghellor ynghylch darparu arian cyfatebol at ddiben Amcan 2 ac Amcan 3? (OAQ4488)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais gyfarfod â Phen Ysgrifennydd y Trysorlys ar 23 Chwefror lle y trafodwyd ariannu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ond byddaf yn gwneud cais am gyfarfod â Changhellor y Trysorlys os teimlaf fod angen hynny.

## Cau Canghennau Banciau

**C13 Lynne Neagle:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i gwrdd â'r Ysgrifennydd Cyllid a'r diwydiant bancio i drafod y cylch arfaethedig o gynlluniau i gau canghennau banciau yng Nghymru? (OAQ4513)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfyddaf yn rheolaidd â'r Ysgrifennydd Cyllid i drafod amrediad eang o faterion. Nid oes gennyf fwriad i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r diwydiant bancio. Mae cau canghennau'n benderfyniadau masnachol i'w gwneud gan fanciau.

## Partneriaeth rhwng y Cynulliad a Busnes

**C14 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar ddatblygiad y bartneriaeth rhwng y Cynulliad a busnes? (OAQ4489)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Sefydlwyd y cyngor partneriaeth busnes i wasanaethu fel cyfrwng rhwng y gymuned fusnes a'r Cynulliad. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Busnes Cymru, corff ambarél newydd a sefydlwyd gan y prif fudiadau sydd yn cynrychioli busnes, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Menter Gymunedol Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru, sydd yn cynrychioli'r economi cymdeithasol ac 11 Aelod Cynulliad, sydd yn adlewyrchu cynrychiolaeth y pleidiau yn y Cynulliad.

Mae'r cyngor partneriaeth busnes yn darparu fframwaith lle y gall y gymuned fusnes roi gwybod am ei barn ar ddatblygiadau polisi i'r Cynulliad fel cyfangorff yn hytrach nag i'r Weithrediaeth yn unig, yn ogystal â bod yn fodd i fonitro a thrafod gweithgareddau'r Cynulliad o ran ymgynghori â busnes o dan Adran 115 a gwerthuso rheoleiddiol o dan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae trafodaethau'n digwydd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y modd y gellir defnyddio arian sydd ar gael o dan y rhaglen Amcan 1 ar gyfer cymorth technegol. Yr wyf hefyd yn ystyried y posibiliad o gymorth i bartneriaid cymdeithasol fel y gellir cael cyfraniad effeithiol i'r broses cynllunio gweithredu.

Mae llawer o gysylltiad anffurfiol rhwng Aelodau a swyddogion y Cynulliad ac aelodau o'r gymuned fusnes. Y cysylltiad personol hwn yw'r dull gorau o gadarnhau perthynas.

**Cyngor Prydain ac Iwerddon**

**C15 Elin Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu mynychu cyfarfod nesaf Cyngor Prydain ac Iwerddon? (OAQ4502)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Pan godir yr ataliad ar y Cyngor, byddaf yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

**Cam-ddefnyddio Alcohol yng Nghymru (Penodi Ysgrifennydd i'r Cabinet)**

**C16 Alison Halford:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ystyried penodi Ysgrifennydd i'r Cabinet i gymryd cyfrifoldeb penodol am ddatblygu ffyrdd o ffrwyno cam-ddefnydd difrifol o alcohol yng Nghymru? (OAQ4511)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gan Janet Hutt gyfrifoldeb oddi mewn i'r Cabinet dros faterion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Ailddiffiniwyd y strategaeth bresennol i ymladd y camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yng Nghymru yng ngoleuni strategaeth wrth-gyffuriau y DU a gyhoeddwyd yn 1998 a lansir y strategaeth newydd gan Jane Hutt yn y dyfodol agos. Bydd y strategaeth ailddiffiniedig yn cadw'r ffocws ehangach ar gamddefnyddio sylweddau, yn cadw'r pwyslais ar waith atal gyda phlant a phobl ifanc ac yn rhoi hwb o'r newydd i waith i fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon.

**Cyfarfod â'r Prif Weinidog**

**C17 David Lloyd:** Pryd y cyfarfu'r Prif Ysgrifennydd â'r Prif Weinidog ddiwethaf? (OAQ4503)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfûm â'r Prif Weinidog ddydd Mercher 29 Mawrth 2000.

**Goblygiadau'r Gyllideb i Gymru (Trafodaethau â'r Canghellor)**

**C18 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal â Changhellor y Trysorlys ynghylch goblygiadau ei gyllideb ddiweddar i Gymru? (OAQ4492)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni chefais drafodaethau â Changhellor y Trysorlys ynghylch y gyllideb. Fodd bynnag, cyn y gyllideb cyflwynais sylwadau iddo gan fynegi fy mhryder ynghylch yr effaith ar economi Cymru o werth uchel parhaus sterling o'i gymharu â'r ewro.

**Hysbysu'r Cyhoedd o Lwyddiannau'r Cynulliad**

**C19 Christine Chapman:** A chofio ei fod o blaid llywodraeth agored a rhyddid gwybodaeth, a oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw fecanweithiau penodol ar y gweill i ddweud wrth bobl Cymru am lwyddiannau'r Cynulliad, o gofio nad yw newyddion da yn gwerthu papurau newydd yn aml? (OAQ4497)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae llawer o ffyrdd o hysbysu pobl Cymru am gyflawniadau'r Cynulliad, gan gynnwys datblygu gwefan y Cynulliad a ddefnyddir gan nifer gynyddol o bobl. Ni fydd fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet na minnau'n methu'r un cyfle i gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cynulliad a hyderaf y bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn ei gweld yn bwysig lledaenu'r newyddion am ei gyflawniadau.

**Gwasanaeth Dwyieithog yn Sefydliadau'r Cynulliad**

**C20 Janet Ryder:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu datblygu a chydlynu ymhellach yr ymdrechion i greu gwasanaeth dwyieithog yn y sefydliadau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt? (OAQ4498)

**Y Prif Ysgrifennydd:** O'r 16 corff cyhoeddus gweithredol a noddir gan y Cynulliad, mae 15 ohonynt naill ai wedi eu cynnwys yn uniongyrchol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu wedi eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth ers hynny. O blith y rhain, gofynnwyd i 12 gyflwyno cynlluniau iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi eu cymeradwyo gan y bwrdd. Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd yn gyfrifol am gymeradwyo a rheoleiddio cynlluniau a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae cyn Ysgrifenyddion Gwladol wedi enwi mwy na 80 o gyrff cyhoeddus i ddiben Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'r Cynulliad yn paratoi gorchymyn pellach ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys cyrff y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, ynghyd ag amrediad eang o gyrff eraill sydd yn cyflawni gwaith o natur gyhoeddus. Mae asiantaeth weithredol y Cynulliad CADW yn ddarostyngedig i gynllun iaith y Swyddfa Gymreig sydd mewn grym o hyd yn y Cynulliad.

**Strategaeth Bancio Moesol i Gymru**

**C21 Huw Lewis:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi trafod strategaeth bancio moesol i Gymru â Chabinet y Cynulliad? (OAQ4495)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni throsglwyddwyd polisi ar weithrediad y system bancio i'r Cynulliad. Mae materion fel cau banciau a thaliadau am ddefnyddio peiriannau talu awtomatig yn benderfyniadau masnachol i'w gwneud gan y banciau.

**Cau Canghennau Banciau (Adroddiad Cruickshank)**

**C22 Ann Jones:** Yn sgîl Adroddiad Cruickshank, a oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i gyfarfod â'r diwydiant bancio i drafod y cynlluniau i gau canghennau banciau? (OAQ4515)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes gennyf fwriad i gyfarfod â chynrychiolwyr y diwydiant bancio. Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb am bolisi mewn perthynas â'r system bancio a mater i Drysorlys Ei Mawrhydi fydd ystyried Adroddiad Cruickshank.

**Dogfen Rhaglennu Amcan 1**

**C23 William Graham:** Pa waith sydd ar ôl i'w wneud ar ddogfen rhaglennu Amcan 1 er mwyn sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r rhaglen cyn gynted ag y bydd y Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno arni? (OAQ4484)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyflwynir y ddogfen rhaglennu sengl i'r Cynulliad mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ebrill. Gan gymryd y bydd y Cynulliad yn fodlon, bydd angen imi hysbysu'r Comisiynydd Barnier yn ffurfiol am hynny. Yn yr un modd â dogfennau rhaglennu sengl eraill, mae angen cael proses o ymgynghori rhwng gwasanaethau oddi mewn i'r Comisiwn Ewropeaidd a rhaid i'r ddogfen gael ei hystyried gan dri phwyllgor ymgynghorol ym Mrwsel cyn y gellir ei chymeradwyo'n ffurfiol a'i hysbysu fel penderfyniad gan y Comisiwn. Nid yw hynny'n debygol o ddigwydd tan yn gynnar ym mis Mehefin.

Tra bo’r broses honno’n mynd rhagddi, bydd angen i bwyllgor monitro’r rhaglen ddatblygu dogfen gyflenwol y rhaglen, sydd yn rhoi mwy o fanylion am y mesurau a ddisgrifir yn y ddogfen rhaglennu sengl. Cyfrifoldeb y pwyllgor hwnnw fydd cymeradwyo dogfen gyflenwol y rhaglen cyn gynted ag y bo modd ar ôl penderfyniad y Comisiwn i gymeradwyo’r ddogfen rhaglennu sengl.

Ar ôl cwblhau’r holl brosesau hyn, gellir dechrau rhoi’r rhaglen ar waith.

**Newidiadau mewn Polisi Ewropeaidd (Map Cymorth Rhanbarthol Dewisol)**

**C24 Glyn Davies:** Pa newidiadau y mae’r Prif Ysgrifennydd yn eu gwneud i bolisi Ewropeaidd y Cynulliad er mwyn sicrhau bod y map cymorth rhanbarthol dewisol yn cael ei dderbyn? (OAQ4499)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ4343 yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth.

**Partneriaeth y Cynulliad gyda Busnes**

**C25 Rhodri Glyn Thomas:** Sut mae’r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu datblygu partneriaeth y Cynulliad gyda busnes? (OAQ4509)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Sefydlwyd y cyngor partneriaeth busnes i wasanaethu fel cyfrwng rhwng y gymuned fusnes a’r Cynulliad. Mae’n cynnwys cynrychiolwyr o Busnes Cymru, corff ambarél newydd a sefydlwyd gan y prif fudiadau sydd yn cynrychioli busnes, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Menter Gymunedol Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru, sydd yn cynrychioli’r economi cymdeithasol ac 11 Aelod Cynulliad, sydd yn adlewyrchu cynrychiolaeth y pleidiau yn y Cynulliad.

Mae’r cyngor partneriaeth busnes yn darparu fframwaith lle y gall y gymuned fusnes roi gwybod am ei barn ar ddatblygiadau polisi i’r Cynulliad yn hytrach nag i’r Weithrediaeth yn unig, yn ogystal â bod yn fodd i fonitro a thrafod gweithgareddau’r Cynulliad o ran ymgynghori â busnes o dan Adran 115 a gwerthuso rheoleiddiol o dan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae trafodaethau’n digwydd gyda’r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y modd y gellir defnyddio arian sydd ar gael o dan y rhaglen Amcan 1 ar gyfer cymorth technegol. Yr wyf hefyd yn ystyried y posibiliad o gymorth i bartneriaid cymdeithasol fel y gellir cael cyfraniad effeithiol i’r broses cynllunio gweithredu.

Mae llawer o gysylltiad anffurfiol rhwng Aelodau a swyddogion y Cynulliad ac aelodau o’r gymuned fusnes. Y cysylltiad personol hwn yw’r dull gorau o gadarnhau perthynas.

**Y Diwydiant Bancio yng Nghymru (Cyfarfodydd gyda’r Ysgrifennydd Cyllid)**

**C26 Lorraine Barrett:** A yw’r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw gyfarfodydd gyda’r Ysgrifennydd Cyllid i drafod y diwydiant bancio yng Nghymru? (OAQ4491)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ4513 Lynne Neagle, y mae copi ohono isod.

**Cau Canghennau Banciau**

**C13 Lynne Neagle:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i gwrdd â’r Ysgrifennydd Cyllid a’r diwydiant bancio i drafod y cylch arfaethedig o gynlluniau i gau canghennau banciau yng Nghymru? (OAQ4513)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfyddaf yn rheolaidd â’r Ysgrifennydd Cyllid i drafod amrediad eang o faterion. Nid oes gennyf fwriad i gyfarfod â chynrychiolwyr o’r diwydiant bancio. Mae cau canghennau’n benderfyniadau masnachol i’w gwneud gan fanciau.

## Pwerau Datganoledig y Cynulliad (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)

**C27 Brian Hancock:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â faint o bwerau sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad? (OAQ4504)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ4324 Geraint Davies ar 28 Mawrth, y mae copi ohono isod.

## Helaethu Pwerau Datganoledig y Cynulliad

**C19 Geraint Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch helaethu'r pwerau sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad? (OAQ4324)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, sydd yn cyflwyno swyddogaethau i'r Cynulliad. Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath ar fater helaethu pwerau'r Cynulliad y tu hwnt i'r rhai a ragwelir yn y setliad datganoli.

## Pwerau Deddfwriaethol y Cynulliad (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)

**C28 Janet Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â phwerau deddfwriaethol y Cynulliad? (OAQ4505)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ4324 Geraint Davies.

## Goblygiadau'r Gyllideb i Gymru

**C29 Pauline Jarman:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ar oblygiadau'r gyllideb ddiweddaraf i Gymru? (OAQ4508).

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid ar 28 Mawrth, bydd cyllideb y Cynulliad yn derbyn £1.4 biliwn yn ychwanegol dros y cyfnod 2000-01 i 2003-04 o ganlyniad i'r gyllideb ddiweddar. Bydd pobl Cymru hefyd yn elwa o'r newidiadau mewn treth incwm, budd-dal plant a mesurau cymorth incwm eraill. Bydd pensiynwyr yn derbyn lwfansau tanwydd gaeaf uwch a bydd rhai'n gymwys i dderbyn cymhorthdal incwm ychwanegol. Bydd busnesau yng Nghymru'n elwa o'r toriadau yn y dreth trosglwyddo cyfalaf a'r lwfans cyfalaf newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint.